# CYLCHLYTHYR 03.05.24

## MABOLGAMPAU

Bydd Mabolgampau'r ysgol yn digwydd dydd Mawrth a Iau nesaf. Bydd dosbarthiadau y derbyn i flwyddyn 2 yn cynnal y Mabolgampau ar brynhawn Mawrth o 1:00 ymlaen. Bydd blynyddoedd 3 i 6 yn digwydd ar fore Iau o 9:15 ymlaen. Defnyddiwch fynedfa gefn yr ysgol er mwyn cael mynediad i'r digwyddiad. Gofynnwn i chi i beidio a thynnu lluniau sy'n Cynnwys plant eraill a'i rhoi ar wefannau cymdeithasol os gwelwch yn dda. Bydd disgyblion derbyn i flwyddyn 2 yn medru cael eu casglu o'u dosbarthiadau yn dilyn y gystadleuaeth. Diolch am eich cefnogaeth.

## HOLIADUR RHIENI

Diolch yn fawr i'r rhai a gwblhaodd holiadur yn ystod y noson rieni.

Os na chawsoch gyfle yn ystod y nosweithiau rhieni, a fyddech mor garedig â llenwi'r holiadur byr yma am yr ysgol. Rydym yn awyddus i gael eich barn ar sut rydym yn gwneud fel ysgol – beth rydym yn ei wneud yn dda, beth sydd angen ei wella a beth yr hoffech i ni ffocysu arno yn y dyfodol. Mae eich barn yn y broses yn bwysig iawn. Diolch

Rydym wedi derbyn 26 o ymatebion hyd yn hyn – mae angen llawer mwy arnom i wneud y canfyddiadau'n ystyrlon. Diolch i chi ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Cliciwch ar y ddolen hon neu sganiwch y côd qr i gwblhau'r holiadur.
https://forms.office.com/e/L2XMdmwbY7




## Teganau

Mae sawl plentyn yn dod a theganau personol i'r ysgol yn ddyddiol. Er ein bod yn deall bod y rhain yn gallu bod yn gysur, maent hefyd yn achosi lawer o anghydfod yn yr ysgol wrth i blant eu cholli, eu bod yn torri, plant arall yn mynd a nhw adre, neu eu bod yn oedran anaddas. Os gwelwch yn dda a wnewch chi annog eich plant i gadw eu teganau adref i'w gadw'n ddiogel. Diolch am eich cydweithrediad.

# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 21.05.24 | Mabolgampau Derbyn – bl 2 pnawn |
| 23.05.24 | Mabolgampau Bl 3 – 6 bore |
| **27.05.24** | **GWYLIAU HANNER TYMOR**<br>**Clwb Bwrlwm Dydd Mawrth – Gwener**<br>**10:30 – 12:30** |
| 05.06.24 | Brechiadau MMR (2) |
| 05.06.24 | Sioe "Y Naid" i fl 6 |
| 06.06.24 | Twrnamaint Rygbi Tag 5&6 – Parc yr Arfau |
| 11.06.24 | Lluniau dosbarth a thimoedd |
| 11.06.24 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 14.06.24 | Criced yr Urdd Bl 3 & 4 |
| 24.06–05.07.24 | Gwersi nofio Bl 4 am bythefnos |
| 27.06.24 | Pontio Plasmawr 1 |
| 03.07.24 | Pontio Plasmawr 2 |
| 09.07.24 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 13&14.07.24 | Tafwyl |
| 22.07.24 | HMS – ysgol ar gau i ddisgyblion |